

Canolfan Cymunedol Mynach Community Centre

Grymuso'r gymuned leol gyda man cyfarfod modern ac arloesol



Yn ddiweddar, mae Canolfan Gymunedol Mynach ym Mhontarfynach, Ceredigion, wedi cynnal prosiect ailddatblygu sylweddol y tu mewn a'r tu allan, gan ei thrawsnewid yn hwb cymunedol modern er budd grwpiau cymunedol lleol a thrigolion lleol.

Mae hi wedi bod yn bleser pur gweithio'n lleol gyda Chanolfan Gymunedol Mynach i'w cefnogi ar eu taith drawsnewid ddigidol a sefydlu eu man cyfarfod modern.

Yn ddiweddar, cysylltodd y Ganolfan â ni i gyflwyno syniadau cychwynnol ynglŷn â gosod cyfleusterau fideogynadleda yn eu capel hardd, hanesyddol ym Mhontarfynach, Ceredigion, a adnewyddwyd i safon uchel iawn yn ddiweddar. Gweithiodd Elfed Jenkins, Rheolwr TG Pugh, yn agos gyda nhw i gasglu a deall eu set lawn o ofynion cyn rhoi arddangosiad byw o ystafell gyfarfod fodern Pugh ei hun yn ein pencadlys yn Llanon.

Gwnaed argraff fawr ar y Ganolfan wrth weld pa mor gyflym a hawdd oedd hi i gynnal ac ymuno â chyfarfodydd hybrid ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams a Zoom. Mae bwrdd rhyngweithiol SMART mawr, y gellir addasu ei uchder, yn golygu bod modd gweld a chlywed pawb sydd yn y cyfarfod, hyd yn oed os ydyn nhw'n eistedd yng nghefn y neuadd neu'n ymuno o bell. Mae'n fwrdd o'r radd flaenaf a gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer cyflwyniadau, ac fel sgrin gyffwrdd, mae'n trawsnewid yn fwrdd gwyn digidol ar gyfer ysgrifennu ac anodiadau amser real. Mae'r sgrin fawr hefyd yn ddelfrydol ar gyfer eu cynlluniau i ymgysylltu â'r gymuned leol trwy gynnal nosweithiau ffilm ac amryw o ddigwyddiadau eraill

Helpu pobl i gysylltu ac ymgysylltu, lle bynnag y maen nhw



Mae ansawdd arbennig camera Yealink yn golygu bod cyfranogwyr o bell yn gweld yr ystafell yn glir a'r holl bobl sydd ynddi, gan roi cyfle i bawb gysylltu, ymgysylltu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, p'un ai ydyn nhw yno'n bersonol, yn cysylltu o'u cartref neu ar y ffordd. Mae man cyfarfod newydd y Ganolfan hefyd yn fodd iddynt gynnal dosbarthiadau amrywiol ar gyfer aelodau sydd yno'n bersonol a rhai o bell, ac mae'n fodd i ddod â chlybiau o bob rhan o'r DU, a hyd yn oed ledled y byd, ynghyd.

Hefyd, mae cyfarfod mewn ffordd modern, hyblyg, o ansawdd uchel yn cynnig budd ychwanegol, sef arbed costau teithio ac amser, ynghyd â lleihau effaith amgylcheddol.

Technoleg flaengar sy'n hygyrch i'r gymuned leol



Yn Pugh, rydym yn ymfalchio mewn cefnogi'r gymuned leol ac roedd yn wych cael cymryd rhan mewn prosiect a fydd yn cael effaith mor gadarnhaol i gynifer o'r grwpiau cymunedol lleol sy'n defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan, gan gynnwys Merched y Wawr, CFFI a'r Cyngor Cymuned Lleol. Roedd y Ganolfan hefyd yn falch o gael yr holl wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, o'r cyfarfodydd cychwynnol, i'r arddangosiadau byw, hyd at y gwaith gosod a hyfforddiant Elfed.

Yealink

SMART
Technologies



zoom

Eich arbenigwyr mewn datrysiadau modern yn y gweithle

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad, mae Pugh yn un o brif gyflenwyr trwyddedu meddalwedd, datrysiadau caledwedd a gwasanaethau proffesiynol y DU i'r sectorau addysg, gwirfoddol a masnachol. Mae Pugh yn gweithio gyda chi i ddatblygu pecynnau ystafell gyfarfod wedi'u teilwra i ddiwallu'ch union anghenion a chynnig unedau treialu, arddangosiadau byw, hyfforddiant a chymorth technegol.

Cysylltwch â'n tîm cyfeillgar o arbenigwyr i weld sut y gallwn eich helpu chi.

01974 200 201 | sales@pugh.co.uk

The Canolfan Cymunedol Mynach Community Centre transformation project was supported and funded by The National Lottery Heritage Fund.

